**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Chwefror 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 6: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24 CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Daeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur i fodolaeth ar ddechrau blwyddyn 2022/23 ac fe gyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn gyntaf honno yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet fis Rhagfyr 2023.

Gan ddilyn yr un drefn, dyma gyfle i'r Cabinet benderfynu os ydynt yn fodlon bod yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1 yn rhoi darlun cywir a chytbwys a'i peidio o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2023/24 er mwyn cyrraedd uchelgais y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN).

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnig tystiolaeth am sut mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithredu Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r wybodaeth berthnasol ym mhennod 3 ac yna ar ddiwedd pob un o benodau 6 i 12.
Trafodwyd fersiwn drafft o'r Adroddiad Blynyddol mewn cyfarfod o Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 23 Ionawr, ac mae sylwadau'r pwyllgor wedi eu crynhoi yn yr adroddiad.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Chwefror 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 7: ADOLYGU DALGYLCH YSGOL FELINWNDA

---

**PENDERFYNIAD**

Ystyriwyd yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar adolygu dalgylch Ysgol Felinwnda, ynghyd â'r gwerthusiad o'r opsiynau a gyflwynir yn yr adroddiad. Penderfynwyd cymeradwyo'r opsiwn ffafriedig, sef: '*Opsiwn 2: Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd'*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn sgil gweithredu'r penderfyniad i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, mae angen penderfyniad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol/ysgolion fydd yn gwasanaethu fel ysgol/ysgolion dalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Datganodd y Cynghorwyr Llio Elenid Owen a Menna Trenholme eu bod nhw'n Llywodraethwyr a benodwyd gan yr awdurdod yn Ysgol Llandwrog a Bontnewydd. Yn ychwanegol nodwyd bod gan y Cynghorydd Menna Trenholme blant yn Ysgol Bontnewydd. Nid oedd y buddiant yn un oedd yn rhagfarnu felly ni adawsant y cyfarfod.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus rhwng 24 Medi a 22 Hydref 2024.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Chwefror 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 8: YSGOL GYNRADD NEBO AC YSGOL BALADEULYN

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol Ysgol Gynradd Nebo gan drafod opsiynau posib yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr a'r pryderon am gynaladwyedd yr ysgol.

Cytunwyd i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol Ysgol Baladeulyn gan drafod opsiynau posib yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr a'r pryderon am gynaladwyedd yr ysgol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae niferoedd dysgwyr Ysgol Gynradd Nebo wedi bod yn fregus ers peth amser. Yn ychwanegol i'r niferoedd isel, her arall y mae'r ysgol yn ei wynebu yw'r diffyg plant sydd yn byw yn y dalgylch.

Mae niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf gyda cwymp sylweddol wedi bod mewn niferoedd y dysgwyr o 27 yn 2017 i 13 yn Ionawr 2025. Yn ychwanegol i'r niferoedd isel sy'n mynychu'r ysgol, her arall y mae'r ysgol yn ei wynebu yw'r diffyg plant sydd yn byw yn y dalgylch.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Chwefror 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 9: CYNLLUN ARBEDION A THORIADAU 2025/26

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr arbedion a thoriadau a restrir yn Atodiad A (£519k) i'w defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2025/26, a chomisiynu'r Adrannau i symud ymlaen i weithredu'r cynlluniau gan ddal sylw at y materion a amlygwyd yn yr adroddiad.

Cymeradwywyd dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i'r Cynllun Arbedion a Thoriadau hwn o fewn y cyfansymiau Adrannol wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Rydym bellach yn gwybod beth fydd lefel ein Grant Cynnal Refeniw (GCR) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 (cynnydd o 3.2%), ac y bydd yn sylweddol is na'r hyn fyddwn ei angen i gynnal ein lefel gwasanaethau presennol.

Rydym hefyd yn wynebu sefyllfa lle bo adrannau yn gorwario, yn bennaf oherwydd cynnydd parhaus yn y galw am eu gwasanaethau a'i bod yn amhosib erbyn hyn i rhai gwasanaethau megis gofal plant, gofal oedolion, gwastraff a priffyrdd allu gweithredu o fewn eu cyllideb presennol. Mae yn arwain at orwariant gan adrannau eleni o oddeutu £8M. Mae'r rhan helaeth o'r bwlch hwn yn deillio o ddiffyg cyllideb i gwrdd â galw uwch am wasanaethau ac yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'n opsiwn i ni beidio a darparu y gwasanaethau hynny. Felly, byddwn yn gorfod defnyddio arian wrth gefn ar gyfer ymdopi â'r sefyllfa.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Chwefror 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 10: CYLLIDEB 2025/26

**PENDERFYNIAD**

Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025) y dylid sefydlu cyllideb o £355,243,800 ar gyfer 2025/26 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £246,818,190 a £108,425,610 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 8.66%).

Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025) y dylid sefydlu rhaglen gyfalaf o £53,736,190 yn 2025/26 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26. Gosodir y gyllideb hon mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn parhau i wynebu heriau ariannol, lle nad yw'r ychwanegiad i'r setliad yn cwrdd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau.

Mater i'r Cyngor Llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2025/26 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2025/26, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2024/25.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Chwefror 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 11: ADDASIAD I GYNLLUN Y CYNGOR

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd ychwanegu prosiect Gofal Cartref i'r rhestr prosiectau o dan faes blaenoriaeth Gwynedd ofalgar yng Nghynllun y Cyngor 2023 – 2028.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau fod cytundeb i'r addasiadau a awgrymir ar gyfer y maes blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar o fewn Cynllun y Cyngor, cyn eu cyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar gyfer eu mabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 6ed o Fawrth 2025.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Chwefror 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 12: CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT: RHEOLI'R DEFNYDD O DAI FEL LLETY GWYLIAU

**PENDERFYNIAD**

Ystyriwyd y CCA Drafft: Rheoli'r Defnydd o Dai fel Llety Gwyliau (Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr) a chynnig sylwadau ac unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol fel yn briodol.

Cymeradwywyd rhyddhau'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft: Rheoli'r Defnydd o Dai fel Llety Gwyliau (yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol) ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

Cymeradwywyd dirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran yr Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol y gallai fod yn ofynnol i'r CCA drafft.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn ystod cyfarfod o'r Cabinet (16 Gorffennaf 2024), penderfynwyd cadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 (nad yw'n dod i rym yn uniongyrchol) ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Pwrpas y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yw diddymu hawliau datblygu a ganiateir (permitted development) penodol yn gysylltiedig â newid defnydd tŷ preswyl i ddefnydd gwyliau, boed hynny yn ddefnydd fel ail gartref (dosbarth defnydd C5), llety gwyliau tymor byr (defnydd C6) neu yn ddefnydd cymysg o'r dosbarthiadau hyn. Daeth y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol ar 1 Medi, 2024.

Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all ddarparu'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cyngor wedi/yn paratoi amrediad o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi'r Cynllun.

Ymhellach fe ddaeth y newidiadau deddfwriaethol yn gysylltiedig â'r dosbarthiadau defnydd i rym ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (ynghyd a gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 cysylltiedig). Amlygir gan hynny nad yw polisïau'r Cynllun

wedi ei baratoi gydag amcan ehangach y Cyfarwyddwyd Erthygl 4 mewn golwg, gan hynny mae paratoi'r CCA hyn yn fodd o ddarparu’r arweiniad perthnasol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 11 Chwefror 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 13: TROSGLWYDDO CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU I GYD BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

**PENDERFYNIAD**

(1) Cytunwyd i lunio Cytundeb Partneriaeth a Chyllido (Atodiad 1) lle trosglwyddir rôl corff Atebol, cyfrifoldeb dros gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r trefniadau cyllido ar gyfer y Cynllun Twf i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar neu cyn 31 Mawrth 2025.

(2) Cytunwyd i amnewid a neilltuo yn ôl y galw, cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a hawliau a rhwymedigaethau ym mhob cytundeb cyllido a ddaw i mewn a ddelir gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran trosglwyddiad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("y Bwrdd Uchelgais") i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ("y CBC");

(3) Cytunwyd i drosglwyddo ac amnewid a/neu neilltuo'r holl fuddiannau yn y portffolio o brosiectau a ariennir gan Gynllun Twf Gogledd Cymru ynghyd ag unrhyw gytundebau, taliadau a phrydlesi ategol gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran y Bwrdd Uchelgais i'r CBC.

(4) Cytunwyd i drosglwyddo a / neu aseinio'r holl falansau ariannol, arian sy'n ddyledus ac asedau fel a ddelir ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan Gyngor Gwynedd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

(5) Cytunwyd i ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, i gytuno a gweithredu'r cytundebau, y gweithredoedd a phob dogfen gyfreithiol arall yn eu ffurf terfynol, sy'n angenrheidiol i weithredu'r trosglwyddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1), (2) a (3) uchod.

(6) Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Partneriaeth a Chyllido, cytunwyd i derfynu cytundeb GA2 a dirwyn Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ben.

(7) Cytunwyd i drosglwyddo atebolrwydd i'r CBC a bod y CBC yn derbyn

cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru yn amodol ar amnewid y Cynllun Twf a chymeradwyo Rheolau Sefydlog Tud. 251 ychwanegol sy'n ymgorffori telerau allweddol y Cytundeb Cyd-weithio ("GA2") rhwng y 6 Cyngor Cyfansoddol a'r 4 parti Addysg.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn dilyn penderfyniadau mewn egwyddor gweithrediaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y "Cynghorau Cyfansoddol"); i drosglwyddo gweithrediad Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r CBC, mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ar gyfer penderfyniadau i weithredu a hwyluso'r trosglwyddiad arfaethedig ar / neu cyn 31 Mawrth 2025.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Chwefror 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 14: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.